Coed Cadw
The Woodland Trust
Llys y Castell
6 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd CF11 9LJ

Castle Court
6 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

0292 002 7732

coedcadw.org.uk
woodlandtrust.org.uk

Mike Hedges AC, Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cendalethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

8 Medi 2017

Annwyl Mr Hedges

**Ymateb Coed Cadw i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (CCERA) Cynulliad Cymru "Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisïau coetiroedd" (Gorffennaf 2017)**

Yr ydym yn croesawu adroddiad y Pwyllgor ac yn cefnogi rhan helaeth yr argymhellion yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â:

- targedau tymor hir ar gyfer cynyddu gorchudd coed (argymhellion 1-3);
- sicrhau o leiaf 20% o orchudd coed trefol (4);
- defnyddio coetir ar gyfer adfywio cymunedol (5);
- gwelliannau i ddarpariaeth mynediad cyhoeddus gan gynnwys cymhellion i berchnogion tir i alluogi mynediad hamdden i'w tir (6)
- cymeradwyaeth gref Safon Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig (10)
- seilio cyllid yn y dyfodol ar gyfer rheolwyr tir a choedwigoedd ar gyflawni canlyniadau cynaliadwy. (13)

Os oes gennym unrhyw bryder, y mae'n bosib y bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio i ddadlau o blaid ehangu creu coetir gyda choed meddal masnachol ar draul canlyniadau polisi eraill. Mae yna berygl bydd hyn yn annog tuedd sydd wedi'i ymgorffori'n ddwfn mewn coedwigaeth masnachol i anwybyddu effeithiau niweidiol amgylcheddol ar ansawdd dŵr, cadwraeth pridd a bioamrywiaeth, gan danseilio goruchwyliaeth reoleiddiol.

O rhan argymhellion 1 i 3 ar ehangu coetiroedd ac argymhellion 8 a 9 yn ymwneud â chefnogi'r sector coedwigaeth fasnachol, rydym yn gefnogol o'r bwriad ond nid ydym yn gefnogol o safbwynt rhai yn y sector coedwigaeth fasnachol fod anghenrhaid i sicrhau cynhyrchu niferoedd pren meddal heb ystyried cynaliadwyedd nac ychwaith y canlyniadau ar gyfer rhanddeiliaid ac amcanion polisi eraill.



Elusen gofrestredig Rhif 294344. Cwmni di-elw a gyfyngir o dan warant. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 1982873.
Swyddfa Gofrestredig: Kempton Way, Grantham, Lincolnshire NG31 6LL. Mae logo Coed Cadw (the Woodland Trust) yn nod masnachu cofrestredig.
Registered Charity No. 294344. A non-profit making company limited by guarantee. Registered in England No. 1982873.
Registered office: Kempton Way, Grantham, Lincolnshire, NG31 6LL. The Woodland Trust logo is a registered trademark.

Coed Cadw
The Woodland Trust
Llys y Castell
6 Heol yr Eglwys Gadeiriol
CF11 9LJ
urt
al Road
11 9LJ
7732
.org.uk
trust.org.uk



Nid ydym ychwaith yn cefnogi'r feddylfryd i atal newid defnydd tir nac amharodrwydd i gydnabod yr achos amgylcheddol ar gyfer cynhyrchu pren mewn modd mwy cynaliadwy.

**Yr hyn y mae angen i ni ei newid**

- Mae angen creu ffynhonnellau incwm arian ar gyfer perchnogion coedwigoedd sy'n darparu buddion arwahan i gynhyrchu pren yn unig. Fel arall bydd yr angen i gynhyrchu pren meddal ar draul allbynnau eraill yn parhau.
- Mae angen i'r sector amgylcheddol dderbyn bod newid defnydd tir mewn rhai amgylchiadau yn llesol ac wedi'i gyfiawnhau, gan gynnwys plannu coetiroedd masnachol, ac y bydd hyn yn cael effaith ar rhai rhywogaethau
- Mae angen i'r sector coedwigaeth masnachol i dderbyn fod angen i goetir masnachol i fod yn llawer mwy amrywiol. Bydd hyn yn creu sialens i fodelau busnes coedwigaeth cyfredol sydd yn ddibynnol ar gynhyrchu cyfaint uchel o rhywogaeth sengl. Nid yw cadwraeth tir fferm cyn-fecanwaith ar raddfa eang yn gynaliadwy nac ychwaith yn ddymunol.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant coedwigaeth i gefnogi yn ddi-amau yr archwiliadau cynaliadwyedd sydd ar gael drwy gynllun sicrwydd coetir y Deyrnas Unedig, sydd yn cael ei ddefnyddio ar ystadau'r Llywodraeth a Choed Cadw, ac sydd yn darparu asesiad cynaliadwyedd sydd heb ei ail mewn unrhyw sector defnydd tir arall. Nid oes modd archwilio safon coedwigaeth y Deyrnas Unedig (UKFS), sydd yn cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru, ac nid yw yn ddigonol i'w gymharu â safon cynaliadwyedd UKWAS, sydd yn cael ei asesu yn annibynnol.
- Ni all coedwigaeth ac amaeth masnachol ddisgwyl parhau i drosglwyddo eu costau a'u heffaith ar rhanddeiliaid eraill, er enghraifft o ran llygredd aer a dŵr a cholli bioamrywiaeth.
- Mae angen i goedwigaeth ac amaethyddiaeth weithio'n nes at ei gilydd i wireddu manteision a synergeddau integreiddio. Mae coedwigaeth-amaeth yn un opsiwn y mae angen i Lywodraeth Cymru ei archwilio'n fwy manwl, yn enwedig wrth ddatblygu polisi defnydd tir cynaliadwy i gymryd lle y Polisi Amaeth Cyffredinol



Elusen gofrestredig Rhif 294344. Cwmni di-elw a gyfyngir o dan warant. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 1982873.
Swyddfa Gofrestredig: Kempton Way, Grantham, Lincolnshire NG31 6LL. Mae logo Coed Cadw (the Woodland Trust) yn nod masnachu cofrestredig.
Registered Charity No. 294344. A non-profit making company limited by guarantee. Registered in England No. 1982873.
Registered office: Kempton Way, Grantham, Lincolnshire, NG31 6LL. The Woodland Trust logo is a registered trademark.

Coed Cadw
The Woodland Trust
Llys y Castell
6 Heol yr Eglwys Gadeiriol
CF11 9LJ
urt
al Road
11 9LJ
7732
.org.uk
trust.org.uk

COE
WO

*Parhad...*

## Y Ffordd Ymlaen

Mae Coed Cadw - Woodland Trust yn credu'n gryf y dylai unrhyw bolisi coedwigaeth yn y dyfodol fod yn rhan o bolisi rheoli tir cynaliadwy sy'n cwmpasu'r holl dir gwledig yng Nghymru. Credwn fod camddealltwriaeth yn parhau ynghylch manteision ehangu coedwigaeth amlbwrpas, ac er mwyn mynd i'r afael â hyn mae angen dangos y manteision hyn yn ymarferol  trwy sefydlu un neu nifer o "goedwigoedd" newydd yng Nghymru. Bydd rhain yn ardaloedd helaeth o dirweddau rhannol goediog sydd yn dangos dulliau coedwigo mwy amrywiol ac wedi'u dylunio yn well o fewn matrics tirlun, gan gynnwys cynefinoedd rheoledig a rhywfaint o ffermio. Bydd rhaid i'r ardaloedd hyn fod mewn lleoliadau lle mae tir fferm yn isel ei radd ac yn rhydd o ddynodiadau cyfyngedig.  Fe fydd angen i'r llywodraeth i ddarparu cynllun cymhelliant sydd yn dwyn perswâd ar fuddsoddwyr a mwyafrif o dirfeddianwyr i gymryd rhan ac sydd yn darparu cefnogaeth ar gyfer amryw o ymyriadau rheoli tirlun ac nid yn unig ar gyfer plannu coetiroedd newydd. Fe fydd angen cynllun integredig aml-bwrpas, wedi'u baratoi a'i weithredu o dan arweiniad cryf.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan mewn cais dan arweiniad CONFOR o dan gynllun cynllunio coedwigaeth cydweithredol LlC, a gobeithiwn y bydd yn cymryd cam tuag at greu lleoliadau o'r fath, ond efallai y bydd angen gwaith pellach.

Nid ydym yn credu y bydd cyfaddawd negodedig rhwng rhanddeiliaid cystadleuol yn bosibl heb arweinyddiaeth gref gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig o ystyried mai'r Llywodraeth yw prif berchennog coedwigoedd yng Nghymru. Nid ydym yn credu y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu'r arweiniad hwn gan nad ydynt yn gosod yr amcanion ar gyfer yr ystad goedwig gyhoeddus, ac hefyd o dan rhwystr am eu bod yn cyfuno rheolaeth coedwigoedd gyda swyddogaethau rheoleiddiol. Mae Coed Cadw yn croesawu adroddiad y pwyllgor i ddyfodol coedwigaeth yng Nghymru fel cyfraniad pwysig i'r drafodaeth ar sut yr ydym yn darparu dyfodol hollol gynaliadwy ac integredig ar gyfer ein hamgylchedd gwerthfawr.

Yn gywir

Jerry Langford

Jerry Langford
Cyfarwyddwr Cymru

*C.C.  Lesley Griffiths,* Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig



Elusen gofrestredig Rhif 294344. Cwmni di-elw a gyfyngir o dan warant. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 1982873.
Swyddfa Gofrestredig: Kempton Way, Grantham, Lincolnshire NG31 6LL. Mae logo Coed Cadw (the Woodland Trust) yn nod masnachu cofrestredig.
Registered Charity No. 294344. A non-profit making company limited by guarantee. Registered in England No. 1982873.
Registered office: Kempton Way, Grantham, Lincolnshire, NG31 6LL. The Woodland Trust logo is a registered trademark.